# EICH COFNOD GOFAL BEICHIOGRWYDD

Badger Notes yw'r porth ac ap ar-lein sy'n eich galluogi i gael mynediad at eich cofnodion mamolaeth dros y rhyngrwyd drwy eich cyfrifiadur personol, dyfais tabled neu ffôn symudol.

Mae'r wybodaeth a welwch yn cael ei chynhyrchu mewn amser real o'ch cofnod system famolaeth yn yr ysbyty, gan ddefnyddio manylion a gofnodwyd gan eich bydwraig neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'ch gofal.

Mae Badger Notes yn cysylltu'n uniongyrchol â Nodiadau Mamolaeth BadgerNet, system ddigidol newydd sy'n cymryd lle ein hen system o ddefnyddio nodiadau papur llaw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

## Defnyddio Badger Notes am y tro cyntaf?

1. Search for the Badger NoChwiliwch am ap Badger Notes yn yr App Store neu Google Play Store a'i lawrlwytho i'ch dyfais. Fel arall gallwch fynd i: www.badgernotes.net
2. Crëwch gyfrif gan ddefnyddio'ch cyfeiriad e-bost a'r cyfrinair a roddwyd i chi gan eich bydwraig – fel arfer dyma'ch dyddiad geni ac yna'r llythrennau 'cav', yn y fformat DDMMBBBBcav (er enghraifft byddai dyddiad geni o 24 Hydref 1990 yn rhoi'r cyfrinair '24101990cav').
3. Byddwch yn derbyn neges destun sy'n cynnwys cod dilysu, rhowch y cod pan ofynnir i chi ac yna byddwch yn creu eich cyfrinair unigryw eich hun.
4. Os ydych chi'n defnyddio ap ar ffôn symudol, gofynnir i chi greu cod PIN i gael mynediad cyflym i'r ap ar ôl mewngofnodi.
5. Rydych chi bellach wedi creu eich cyfrif yn llwyddiannus! Gweler y dudalen nesaf am awgrymiadau ar ddefnyddio'r porth a'r ap.

## Wedi defnyddio Badger Notes o'r blaen?

1. Mewngofnodwch gan ddefnyddio'ch manylion presennol.
2. Dewiswch yr opsiwn 'Add a Care Record' o'r ddewislen a nodwch eich cyfrinair newydd i ychwanegu eich cofnod beichiogrwydd newydd at eich cyfrif.

## Gosod yr iaith

O fewn ap Badger Notes gallwch newid yr iaith a ddefnyddir drwy glicio lle rydych chi'n gweld yr eiconau hyn:

Eng

English

Yr ieithoedd a gefnogir ar hyn o bryd yw: Cymraeg, Saesneg, Pwyleg, Punjabi, Bengaleg, Sbaeneg, Portiwgaleg, Rwmaneg, Lithwaneg, Somaleg, a Maori.

## Cwblhewch eich holiadur cyn apwyntiad

Bydd eich bydwraig gymunedol yn gofyn i chi gwblhau hyn cyn eich apwyntiad. Gellir ei adolygu a'i ddiweddaru tan ddiwrnod eich apwyntiad.

## Cynllun gofal – Llinell amser wythnos-wrth-wythnos o'ch beichiogrwydd

- Dysgwch am ddatblygiad eich babi
- Cael mynediad at wybodaeth a argymhellir gan eich bydwraig
- Dysgu am ddigwyddiadau sy'n debygol o ddigwydd bob wythnos
- Gweld eich apwyntiadau sydd wedi'u trefnu
- Ysgrifennu cofnod dyddiadur personol ac ychwanegu llun

## Sgyrsiau

Cofnodwch eich meddyliau a'ch cwestiynau am eich gofal cynenedigol, cynllun geni a gofal ôl-enedigol - i'w hadolygu gyda chi yn eich ymweliad nesaf a drefnwyd.

**Am unrhyw bryderon brys ffoniwch yr Uned Famolaeth - gellir dod o hyd i rifau ffôn yn yr ap neu yn eich nodiadau mamolaeth.**

## Taflenni

Gallwch gael mynediad i'n taflenni sydd ar gael yn ddigidol – bydd mwy yn cael eu hychwanegu dros amser!

## Diweddarwch eich manylion mewngofnodi

Gallwch ddiweddaru eich manylion mewngofnodi unrhyw bryd gan ddefnyddio'r ddewislen proffil.Ni all bydwragedd newid eich manylion ar ôl i chi fewngofnodi.

## Angen help?

Gweler tudalen gymorth Badger Notes yma: www.badgernotes.net/Help neu siaradwch â'ch bydwraig